

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar nos Fawrth 9 Chwefror 2021 am 7.00 o'r gloch. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg fideo.

1-02/21: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Ffion Gwyn; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Dr Peter Harlech Jones; Cyng. Phil Jones; Cyng. Alice Roberts; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Sian Williams;

Clerc – Dr Catrin Jones.

Nodwyd gyda thristwch mawr farwolaeth Mrs Glenda Burke, cyn Clerc Cyngor Tref Porthmadog a oedd- wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i'w chymuned. Cafwyd munud o dawelwch i gofio amdani.

2-02/21 Ymddiheuriadau:

Cyng. Nan Davies-Hughes;

3-02/21: Datgan diddordeb

4-02/21: Cadarnhau ac arwyddo cofnodion cyfarfod Ionawr 2021

5-02/21 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

1. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi llenwi arolwg gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Eich Tref eich Dyfodol.
2. Nodwyd bod cyfarfod o Bwyllgor Arfon –Dwyfor ar 10 Chwefror – bydd adroddiad nol yn y cyfarfod nesaf am unrhyw faterion priodol
3. Ombwdsmon Cymru – Ymgynghoriad ar Ganllawiau Drafft Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chymuned/Tref – aelodau i anfon sylwadau erbyn 28 Chwefror. Gwahodd sylwadau i'r Clerc erbyn 19 Chwefror.

6-02/21: Gohebiaeth

1. Cyngor Gwynedd – Covid-19 – ymateb re biniau i'r dref

Dal dim ymateb gan Swyddog Cyngor Gwynedd re biniau i'r dref.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth

2. Cais am gael Camera Cylch Cyfyng- Lôn Parc, Criccieth

Nodwyd bod Swyddog yr Heddlu wedi cael cyfarfod gyda Swyddog Cyngor Gwynedd ac roedd yn aros i glywed nôl ganddo.

Penderfyniad

Derbyn yr adroddiad.

3. Cyngor Gwynedd - Meysydd Chwarae Plant–

Aros am benderfyniad gan Gyngor Gwynedd.

4. Llywodraeth Cymru - Llunio a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2020-21

Roedd y llythyr yn nodi o ganlyniad i'r pandemig a'r effaith barhaus ar yr adnodd o ran staff mewn awdurdodau lleol mae'n bosibl y bydd cwblhau'r cyfrifon eleni yn galw am ymgymryd â rhagor o amser i'w cwblhau. Roedd yn bosibl felly y byddai awdurdodau yn dymuno llunio eu cyfrifon yn unol â'r amserlen estynedig a ddefnyddir ar gyfer cyfrifon 2019-20.

I roi rhywfaint o sicrwydd a fframwaith ar gyfer cwblhau'r cyfrifon blyneddol, gan ddilyn amserlen 2019-20 bydd yn ofynnol llunio ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 31 Awst 2021 a chyhoeddi cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio erbyn 30 Tachwedd 2021 ar gyfer pob corff llywodraeth leol yng Nghymru ond lle y gall cynghorau wneud hynny. Fodd bynnag roedd yn arfer da i gymeradwyo cyn gynted ag sy'n bosibl ac yn ddefnyddiol i ymgysylltu ag archwilyr i helpu i reoli'r pwysau cyffredinol ar Archwilio Cymru.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth

5. Un Llais Cymru - Cysylltu â'ch cymuned leol - Canllaw Cyfathrebu Llywodraeth Cymru i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod

Roedd y canllaw wedi ei gylchredeg - nodi'r cynnwys ar gyfer cyfathrebu.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth

6. Un Llais Cymru – Cofrestrfa Tir EM _ Arolwg o Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Roedd angen cwblhau'r arolwg erbyn 26 Chwefror-

Penderfyniad:

Bod y Cadeirydd a'r Clerc i gwblhau ar ran y Cyngor Tref

7. Un Llais Cymru – Diwrnod Cenedlaethol y GIG 5 Gorffennaf 2021 –

Roedd y manylion wedi ei gylchredeg. Yng nghydestun Covid-19 byddai rhaid gweld beth fydd yn ymarferol bosib.

Penderfyniad

I gydnabod y diwrnod mewn ffyrdd eraill yn hytrach na dilyn y canllaw gyda gwaith a fydd yn unigryw i Griccieth.

8. Un Llais Cymru – Rhaglen Hyfforddiant Chwefror 2021

Roedd y cyrsiau wedi eu cylchredeg

Penderfyniad

Aelodau i roi gwybod i'r Clerc os oeddynt am gofrestru.

9. Cyngor Tref Nefyn – Gohebiaeth re Farchnad Dai

Roedd y manylion wedi ei gylchredeg - yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i ddanfon llythyr i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru yn mynegi consyrn bod y farchnad dai gwyliau yn datblygu'n ddireol ac yn gwneud niwed amlwg i strwythur a gwedd cymdeithasol ein cymunedau.

Penderfyniad:

I gefnogi gohebiaeth Cyngor Tref Nefyn a danfon y llythyr. I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd am ystadegau tai haf/ail-gartrefi Criccieth er mwyn trafod yn y cyfarfod nesaf.

10. Neuadd Goffa Criccieth – llythyr diolch

Roedd llythyr diolch am y cyfraniad ariannol wedi ei gylchredeg.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth

7-02/21 Ceisiadau cynllunio

Dim ceisiadau

8-02/21 Llenwi Sedd Wag y Cyngor Tref

Roedd un cais drwy lythyr wedi ei dderbyn gan Ms Delyth Lloyd – croesawyd i'r cyfarfod i roi cyflwyniad byr i'r Cyngor Tref. Diolchwyd iddi am y cais a oedd wedi'u gylchredeg i aelodau'r Cyngor.

Penderfyniad:

Yn unfrydol yn dilyn pleidlais penderfynwyd i gyfethol Ms Delyth Lloyd yn aelod o'r Cyngor Tref. Bydd angen iddi gwblhau ffurflen derbyn swydd erbyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

9-02/21: Adroddiad ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerth Ecosystemau 2021 Cyngor Tref Criccieth

Roedd yr adroddiad ar gyfer 2021 wedi ei gylchredeg i ddiweddarau ar adroddiad llynedd.

Penderfyniad –

Cymeradwyo'r adroddiad gan nodi'r cynnydd yn y datblygiadau yn sgil prosiect Cae Crwn, sef y rhandiroedd a'r ardd gloynod byw a phe cyn Cadw Cymru'n Daclus i'r Ardd Natur llynedd. Diolchwyd i'r Clerc am baratoi'r adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar safle We'r Cyngor Tref a'i ddanfôn i Dîm Polisi Bioamrywiaeth Lywodraeth Cymru.

10-02/21 Cynllun Cymunedol

Roedd papur gwybodaeth ar y prosiectau isod wedi ei gylchredeg i aelodau.

1. Prosiect Cymunedol Cae Crwn

Roedd y cais cynllunio ar gyfer y sied wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd ar gost o £190 fel cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd y gwaith arall yn dod o dan y cyllid (cyfanswm £20,800) gan y Loteri. Gwaith yn mynd yn ei flaen i gasglu deunydd ar gyfer y prosiect (nifer o'r costau ar yr agenda i'w talu ar ddiwedd y cyfarfod).

Nodwyd bod y Cadeirydd a Ffion Gwyn wedi gwneud tipyn o waith ymchwil i'r hanes a rhannwyd drafft o'r bwrdd gwybodaeth ac arwydd Croeso gan Ffion s oedd yn sail i arwyddion y Rhandiroedd. Yn ogystal bydd yna fwrdd i'r Ardd Gloynod Byw.

Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar lein gyda'r Rheolwr Prosiect.

Roedd y Clerc hefyd wedi derbyn ffurflen i agor cyfrif gyda Huws Gray.

Penderfyniad

Derbyn yr adroddiad a diolchwyd yn fawr iawn i bawb a oedd yn gweithio mor galed ar y prosiect o dan anawsterau Covid-19 a'r tywydd adeg yma'r flwyddyn. Diolchwyd i'r Cyng. Phil Jones am ei gymorth yn sortio taliadau drwy siec i Huws Gray.

2. Map ar gyfer y dref

Dim byd pellach i'w adrodd

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth ac aros i weld am ymateb Cyngor Gwynedd am ddefnydd grant gwella ein trefi. Cytunwyd i roi hawl dirprwyedig i'r Grŵp Adnewyddu fwrw ymlaen gyda threfnu'r cynlluniau os daw cadarnhad gan Gyngor Gwynedd cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

3. Adeilad yr Hen Lyfrgell

Aros i glywed nôl gan Gyngor Llanidan am rannu costau bargyfreithiwr.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

4. Prosiect Cymunedol Newydd – Enwau, Chwedlau a Chan

Roedd cais i ychwanegu ychydig at gost y prosiect ar gyfer gosod y cerfluniau clai ffantastig a oedd wedi eu creu gan y Cyng. Ffion Gwyn i gyd-fynd gyda dathliad yr ysgol yn 150 eleni. Roedd yr amcangyfrif cost yn tua £250 ar gyfer hyn.

Roedd Ffion Gwyn a'r Cadeirydd wedi bod yn ymchwilio i hanes yr ysgol ac yn paratoi e-lyfr ar i gofnodi'r hanes.

Roedd yn dda hefyd cadarnhau bod Twm Morys a Gwyneth Glyn yn cwrdd gyda Merched y Wawr dros Zoom i gychwyn y broses o ymledu'r prosiect ymhlith y gymuned. Bydd cyfarfod nesaf o'r grŵp prosiect ar 17 Chwefror.

Penderfyniad

Derbyniwyd yr adroddiad. Cytunwyd mewn egwyddor i gefnogi y cais am ychwanegu at gostau'r prosiect. Bydd costau yn cael eu paratoi yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Ysgol.

5. Cyngor Gwynedd – Grant i wella amgylchedd ffisegol ein trefi

Roedd y Cyngor Tref wedi cymeradwyo'r papur a'r cynlluniau sydd wedi cael eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd ar gyfer y grant yma. Roedd yna oedi yn y broses gan nad oedd Cyngor Gwynedd wedi derbyn y llythyr swyddogol gan Lywodraeth Cymru eto i fedru bwrw ymlaen gyda'r cynlluniau. Roedd yn ymddangos bod yna gefnogaeth mewn egwyddor i'r cynlluniau ar gyfer y Maes yn ogystal â fyny'r Stryd Fawr ger y Swyddfa Bost.

Yn y cyfamser roedd Grŵp Prosiect Adnewyddu (Robert Cadwalader, Phil Jones, Ffion Gwyn, Clerc) wedi bod yn gweithio ar y cynlluniau eraill ar gyfer pen arall y Stryd Fawr ger y Swyddfa Bost a hen Swyddfa Dicedi, a'r Cyng. Peter Harlech Jones wedi ymgynghori gyda'r partïon am y cynlluniau ger y Swyddfa Bost.

Yr argymhelliad ar gyfer yr ardal ger y Swyddfa Docynnau yw 2 fainc pedair sedd - mae'r Grŵp Prosiect Adnewyddu wedi edrych ar nifer o gwmnïau a chostau - a rhannwyd gwybodaeth am gwmni sydd yn cynnig 25 mlynedd o warant are eu cynnyrch am gost debyg gan gwmnïau eraill am feinciau o'r un maint. Yn ogystal roedd angen gwaith trwsio ar y Swyddfa Docynnau ac mae trafodaeth wedi cychwyn gyda'r perchnogion. Byddai'n gwella edrychiad y Stryd Fawr i wneud gwaith arno ac mae'n adeilad hanesyddol yn y dref.

Ar gyfer y Swyddfa Bost - byddai meinciau 1.5 medr (dwyr sedd) yn bwrpasol – a rhannwyd hefyd gwybodaeth am gwmni sydd yn cynnig potiau clai mawr arbennig gyda 50 mlynedd o warant yn erbyn rhew ac yn medru eu paentio mewn unrhyw liw RAL o ddewis. Byddai modd cael y meinciau a'r potiau yn yr un lliw glas â hysbysfwrdd y Cyngor Tref.

Penderfyniad

I aros am benderfyniad Cyngor Gwynedd i weld os oes modd ariannu o dan y cynllun gwella Trefi ac i drafod ymhellach gosodiad y meinciau ger y Swyddfa Bost gyda'r partïon. Roedd y Cyngor Tref yn hapus i gefnogi'r cwmnïau a argymhellwyd gan y Grŵp Adnewyddu ac i roi hawl dirprwyedig ar gyfer symud ymlaen gyda'r prosiectau i'r Grŵp os daw cadarnhad gan Gyngor Gwynedd cyn y cyfarfod nesaf. Diolchwyd i aelodau'r Grŵp Prosiect Adnewyddu a'r Cyng. Peter Harlech Jones am eu gwaith.

6. Cyngor Gwynedd – Meinciau Cyfeillgarwch

Ar 18 Ionawr derbyniwyd e-bost gan Gydlynnydd Pontio'r Cenedlaethau, Cyngor Gwynedd yn nodi ei bod wedi derbyn arian er mwyn adnewyddu meinciau mewn rhai ardaloedd ar draws Gwynedd a'i bod wedi dewis Criccieth fel un o bedair tref i gael y cynnig cyntaf. Roedd hyn o ganlyniad i'n cais i Gyngor Gwynedd am feinciau o dan y gyllideb gwella amgylchedd ein trefi (5 uchod). Bydd Cyngor Gwynedd yn talu am y gost o adnewyddu un fainc. Mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Prosiect Adnewyddu (Robert Cadwalader, Phil Jones, Ffion Gwyn, Clerc) ar gyfer gosod meinciau ac ati gan y Cyngor Tref, derbyniwyd y cynnig hwn gan fod mater o frys i roi gwybod er mwyn trefnu a gwario'r arian yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Y bwriad ydi bod y meinciau hyn (yn dilyn y cyfyngiadau) yn feinciau cyfeillgarwch sydd yn croesawu pobl o bob oed i eistedd gyda'i gilydd a rhannu sgwrs yn y gobaith y bydd hynny yn lleihau unigrwydd. Y gobaith yw y bydd y meinciau yn cael ei dylunio ar y cyd gan sawl grŵp cymunedol ac yna bydd artist yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith. Roedd hyn yn cyd-fynd gyda phrosiect "Enwau Chwedlau a Chan" y Cyngor Tref. Apwyntiwyd Ffion Gwyn yn annibynnol gan Gyngor Gwynedd yn artist i gyflawni'r gwaith a bydd mewnbyn myfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor i'r prosiect. Yn y cyfamser, gofynnwyd i Gyngor Gwynedd os byddai modd i ddwy fainc gael ei adnewyddu - yr ail un ar gost i'r Cyngor Tref. Y gost byddai trwsio'r fainc (mewn gweithdy yng Nglynllifon gan unigolion sydd ag anabledau). Bydd Cyngor Gwynedd yn talu'r costau eraill, sef y paent a chludo.

Roedd y Grŵp Prosiect Adnewyddu wedi adnabod dwy fainc a oedd angen sylw yn arbennig, ar Min y Môr a Ffordd Gaernarfon ac roedd Ffion Gwyn wedi gwneud cynllun drafft ar gyfer y ddwy i gyd-fynd gyda phrosiectau'r Cyngor Tref. Roedd y fainc ar Min y Môr â phlac arno ond nid oedd wedi bod yn bosib darganfod teulu i gysylltu gyda nhw. Byddai modd cadw'r plac ar y fainc beth bynnag a'r peryg yw y byddai dirywiad pellach yn y ddwy fainc yn golygu y byddai rhaid cael gwared arnynt yn y pen draw.

Penderfyniad

Bod y Cyngor Tref yn bwrw ymlaen gydag adnewyddu'r ddwy fainc a thalu costau gweithlu Glynllifon am adnewyddu un ohonynt. Bydd y costau eraill yn cael ei dalu naill ai yn uniongyrchol gan Gyngor Gwynedd neu ad-dalu'r Cyngor Tref. Roedd y prosiect yn cyd-fynd gyda Chynllun Cymunedol y Cyngor Tref. Diolchwyd i aelodau'r Grŵp Prosiect Adnewyddu am eu gwaith.

7.Prosiect Pont yr Enfys

Bu asiantaeth dau Adra mewn cyswllt i holi os byddai diddordeb gan y Cyngor Tref weithio mewn partneriaeth i ail-gyfodi prosiect y cerrig lliwgar yn Ty'n Rhos ac i gynnig syniadau ar gyfer datblygu a hefyd i gael cymorth ariannol gan y Cyngor Tref. Roedd y Swyddog Cymunedol yn diolch am ein Hadroddiad Blyneddol 2019/20 a'r gydnabyddiaeth i Adra am ei gymorth i ariannu'r prosiect Faciwîs. Roedd Adra yn awyddus iawn i fedru ail-gydio yn y syniad gwreiddiol yn sgil llwyddiant y plant i gael nifer mwy o gerrig wedi eu haddurno gan drigolion y dref llynedd. Maent ar lawr ar hyn o bryd wrth y ffrâm goncrid sydd ddim digon mawr. Mae'r Grŵp Adnewyddu wedi ystyried a'r Cyng. Ffion Gwyn wedi creu bwrdd syniadau am Bont Enfys Ty'n Rhos -roedd Adra yn awyddus iawn i gefnogi hwn. Bydd hefyd angen ymgynghoriad gyda'r gymuned yn Ty'n Rhos a sicrhau mesurau iechyd a diogelwch. Mae'r Cyng. Alice Roberts yn hapus i gydgordio'r ymgynghoriad a hefyd yn awyddus i gydlynu cael rhagor o'r cerrig wedi eu paentio gan blant a thrigolion Criccieth ac unrhyw un sydd eisiau ymuno. Byddai cael y prosiect yn barod ar gyfer y diwrnod cenedlaethol i gydnabod y GIG ar 5ed Gorffennaf eleni yn amserol iawn gan fod y prosiect gwreiddiol, sef paentio'r cerrig hefo negeseuon a phatrymau gobaith i gefnogi y GIG ar gyfnod y clo mawr cyntaf pandemig yn 2020. Roedd lleoliad yr addurn ar fap newydd Tref Criccieth.

Penderfyniad

Bod y Cyngor Tref yn gweithio mewn partneriaeth gydag Adra a neilltuo swm o arian o'r Cynllun Cymunedol (tua £1500) i dalu am y deunydd a thrafod gydag Adra ar gyfer iddynt gydgordio'r llafur a'r costau hyn. Yn y cyfamser i ymgynghori gyda Ty'n Rhos a chael amserlen i'r prosiect er mwyn archebu'r deunydd angenrheidiol. Roedd y Clerc wedi derbyn prisiau am ddeunydd. Diolchwyd i'r Cyng. Ffion Gwyn am ei gwaith yn dylunio'r addurn.

11-02/21: Lwfans Cadeirydd 2020/21

Roedd y Cadeirydd wedi penderfynu y dylid talu ei lwfans £200 i'r Neuadd Goffa eleni.

Penderfyniad:

Talu'r siec i'r Neuadd Goffa ar ddiwedd y cyfarfod.

12-02/21: Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys Llwybr 11

Roedd y Clerc wedi e-bostio'r Swyddog eto yn holi am ddiweddariad - dim ymateb.

Penderfyniad:

Cyng. Phil Jones a'r Cyng. Eirwyn Williams i gysylltu gyda'r Swyddog.

13-02/21: Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Nodwyd bod tir lithriad wedi bod ar Lwybr y Dryll ar yr arfordir a bod y Cyng Eirwyn Williams wedi adrodd am y mater i Gyngor Gwynedd. Mae swyddog wedi asesu'r sefyllfa ac wedi gosod bariwn i gadw pobol draw o'r clogwyn.

Penderfyniad:

Derbyn yr adroddiad

14-02/21: Trafnidiaeth yng Nghriccieth

Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu i ddiolch i'r Swyddog am y cyfarfod maes - aros am adroddiad Swyddog Cyngor Gwynedd

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

15-02/21: Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Cadarnhaodd y Cyng Peter Harlech Jones bod y bambŵ wedi cael ei dorri

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

16-02/21: Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

17-02/21: Torri Coed yng Nghriccieth

Re anhawster i geir ar groesffordd yr Esplanade gyda Heol Porthmadog oherwydd tyfiant coed – aros am asesiad ac adroddiad Swyddog Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad:

Aros am ymateb Cyngor Gwynedd

18-02/21 Meinciau Tref Criccieth

Dim byd pellach i'w adrodd.

19-02/21 Derbyniadau

20-02/21: Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol (PAYE)	£17.50 (siec 101445)
• Cyflog Clerc (Ionawr)	£793.70 (siec 1014446)
• Neuadd Goffa Criccieth	£200.00 (siec 101447)
• Huws Gray	£170.59 (siec 101448)
• Huws Gray	£183.31 (siec 101449)
• Alwyn Hughes (Gweithdy AI)	£1,150.00 (siec 101450)
• Boston Seeds Ltd	£988.20 (siec 101451)
• Peirianwaith Eifionydd Engineering	£1050.00 (siec 101452)*
• Huws Gray	£358.47 (siec 101453)*
*Biliau ychwanegol ers cyhoeddi'r agenda	

Penderfyniad:

Rhodddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau

Daeth y cyfarfod i ben 8.30 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar Nos Fawrth 9 Mawrth 2021.

****Bydd y rhaglen yn cau 1 Mawrth 2021****

Dr Catrin Jones
Clerc